# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mehefin 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 13.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.1 SL(6)486 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 1 - 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

LJC(6)-19-24 - Papur 2 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, 21 Mai 2024

**2.2 SL(6)487 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 7 – 8)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

## 3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.35 – 13.40)

**3.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol**

(Tudalen 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 – Papur 4 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru, 4 Mehefin 2024

## 4 Papurau i'w nodi

(13.40 – 13.45)

**4.1 Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a Llywodraeth y DU: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 10 – 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 – Papur 5 – Llythyr gan y Gweinidog Data a Seilwaith Digidol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 16 Mai 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-24 – Papur 6 – Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 19 Chwefror 2024 [Saesneg yn unig]

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU**

(Tudalen 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 - Papur 7 - Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 3 Mehefin 2024

**4.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Rhentwyr (Diwygio)**

(Tudalennau 16 - 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 - Papur 8 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 6 Mehefin 2024

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.45)

## Cyfarfod preifat

(13.45 - 14.10)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024: Adroddiad drafft

(13.45 - 13.55) (Tudalennau 20 - 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 - Papur 9 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 7 Gohebiaeth gan Adam Price AS mewn perthynas â Charchar EF y Parc: Ystyriaethau pellach

(13.55 - 14.10) (Tudalennau 25 - 53)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-19-24 – Paper 10 – Llythyr gan Adam Price AS, 5 Mehefin 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-24 – Papur 11 – Llythyr at y Pwyllgor Materion Cymreig, 14 Mai 2024

LJC(6)-19-24 – Papur 12 – Llythyr gan Adam Price AS, 8 Mai 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-24 – Papur 13 – Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]

LJC(6)-19-24 – Papur 14 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

# SL(6)486 – Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn rhestru personau penodol sy'n "gyrff cyhoeddus" at ddibenion Rhan 2 a Rhan 3 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu 8 person arall at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 6(1). Dyma hwy:

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru;
- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Trafnidiaeth Cymru;
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol;
- Cymwysterau Cymru.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth i bennu bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol osod a chyhoeddi amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2025.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwiliad ac adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus ychwanegol.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 7 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r rhaglith yn nodi bod "Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff cyhoeddus a restrir o

dan reoliad 2, fel sy'n ofynnol o dan adran 52(4) o'r Ddeddf". Mae hyn yn gamarweiniol gan mai'r gofyniad yn adran 52(4) yw i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol:

*(a) y Comisiynydd;*

*(b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.*

*(c) os yw'r rheoliadau yn diwygio adran 6(1) er mwyn ychwanegu person, y person hwnnw.*

Nid oes gofyniad i ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn benodol. Byddai'n gliriach datgan bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r "personau eraill hynny sy'n briodol yn eu barn hwy" yn hytrach na chyfeirio'n benodol at Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth ei enw yn y rhaglith.

Byddai hefyd yn gliriach datgan bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau sydd wedi cael eu hychwanegu at adran 6(1), yn hytrach na chyfeirio at y "cyrff cyhoeddus" a "restrir o dan reoliad 2". Mae paragraff 43 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r gofynion ymgynghori yn fwy cywir.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at "adran 6" o'r Ddeddf (er enghraifft, yn y penawdau i reoliadau 3 a 4 ac yn nhestun y rheoliadau hynny). Byddai'n gliriach datgan "adran 6(1)" ym mhob achos gan mai dyma'r ddarpariaeth benodol o'r Ddeddf y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w diwygio.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod "Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru" yn adran 6(1) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r enw cyfreithiol a roddir gan erthygl 2 ddiwygiedig o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998/678 yn defnyddio "Gwasanaeth Iechyd Gwladol" yn hytrach na'r GIG yn yr enw. Nid yw'n glir, felly, pam na ddefnyddiwyd "Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru" yn rheoliad 2(2).

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(3), nid yw'n glir pam y cyfeirir at y paragraff newydd a fewnosodir ar ôl paragraff (d) o adran 6(1) fel "(dd)", yn hytrach na "(da)". Ceir paragraff "(ba)" a fewnosodwyd yn flaenorol ar ôl paragraff (b) (gan OS 2021/1360 (Cy.356). Gall y defnydd o "(dd)" greu disgwyliad bod paragraffau (da) i (dc) eisoes yn adran 6(1).

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Dylai pennawd rheoliad 4 gyfeirio at "Archwilydd Cyffredinol Cymru" yn hytrach na chyfeirio at yr "Archwilydd Cyffredinol".

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Nid yw'n glir pam y mae cyfeiriadau at "gyrff cyhoeddus a ychwanegir at adran 6 o'r Ddeddf". Mae'r pwerau galluogi yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu "personau" at adran 6(1) fel y byddant yn cael eu cynnwys o fewn ystyr corff cyhoeddus at ddibenion Rhan 2 a 3 o'r Ddeddf. Mae Trafnidiaeth Cymru a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gwmnïau cofrestredig a ychwanegir at adran 6(1). Bydd Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf yn gymwys dim ond i'w swyddogaethau o natur gyhoeddus.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 4(2), byddai'r disgrifiad o'r addasiad yn gliriach pe bai'r geiriau "o adran 15" yn cael eu hailadrodd ar ôl y cyfeiriad at "yn lle is-adran (6)" oherwydd bod cyfeiriadau at adran 6 a 15 yn rheoliad 4(2).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraffau 4 i 8 o'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys "materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad". Mae'r paragraffau hyn yn nodi fel a ganlyn:

*4. Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dymuno nodi:*

*5. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y bumed Senedd) ymchwiliad o'r enw Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus rhwng mis Mai 2020 a mis Mawrth 2021. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yma ar 17 Mawrth 2021 a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad (Argymhelliad 7) i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Amlinellodd gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2020-21 fod gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ffordd amgen a gwell o weithio yn hytrach nag yn ffordd ychwanegol o weithio. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer gosod amcanion, monitro, adrodd, a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.*

*6. Mae cylch gwaith Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn cynnwys archwilio deddfwriaeth a chraffu ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau ar gyfer materion sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Yn ei Adroddiad craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (Diweddariad Ebrill 2022), roedd y*

*Pwyllgor yn falch fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i adolygu nifer y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.*

7. *Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd adroddiad o'r enw Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23 (Mawrth 2024), a oedd yn cynnwys argymhelliad i'r Comisiynydd roi gwybod a fydd yn gallu parhau i roi sicrwydd ynghylch y cymorth a ddarperir gan y tîm cyrff cyhoeddus i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sydd i'w hychwanegu at y Ddeddf, y defnyddiodd ei swyddfa ei chronfeydd wrth gefn i'w ariannu yn 2022-23.*

8. *Wrth graffu ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) fel yr oedd bryd hynny, sy'n gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6(1) o'r Ddeddf, cynhwysodd Pwyllgor Cyllid y Senedd argymhelliad (Argymhelliad 10) yn ei Adroddiad Cyfnod 1 (Tachwedd 2022) yn gofyn i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar ganlyniad yr adolygiad o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu, yn rhannol, argymhellion Pwyllgorau'r Senedd.*

**9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gall enw'r offeryn ddrysu rhai darllenwyr. Gall defnyddio'r gair "(Diwygio)" yn yr enw wneud i rai darllenwyr feddwl y gall fod offeryn blaenorol, "Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) XXXX" a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Mehefin 2024**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **21 Mai 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol** |

Heddiw, rwy'n falch o osod rheoliadau i estyn y ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant (Rhan 2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wyth corff cyhoeddus arall:

- Cymwysterau Cymru,
- Gofal Cymdeithasol Cymru,
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru,
- Awdurdod Cyllid Cymru,
- Trafnidiaeth Cymru,
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol,
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru,
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae'r rheoliadau'n ychwanegu'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan eu gwneud yn ddarostyngedig i Ran 2 a 3 o'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ofynnol mewn perthynas ag adran 9 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r darpariaethau'n darparu bod rhaid i'r cyrff ychwanegol osod a chyhoeddi amcanion llesiant erbyn 31 Mawrth 2025 fan bellaf ac ymestyn cyfnod ymchwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, mewn perthynas â'r cyrff ychwanegol.

Mae Memorandwm Esboniadol, gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi'i osod, a chrynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r rheoliadau.

Mae'r ddyletswydd llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â gwaith datblygu cynaliadwy, sef y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth wneud hynny, rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i geisio sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y gwaith o gyflawni pob

un o’r nodau llesiant, ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni’r amcanion hynny. Rhaid iddynt hefyd weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd, bydd y rheoliadau'n ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) ar 30 Mehefin 2024, gan ddod â chyfanswm y cyrff cyhoeddus datganoledig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i 56. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn cynyddu cwmpas ac ehangder yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru, sy'n ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithio yng Nghymru i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy.

# SL(6)487 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2024 ("y Gorchymyn") yn diwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") yn darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Mae adran 157A(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn darparu y caiff Ei Fawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ddiwygio'r rhestr yn Atodlen 9A drwy ychwanegu neu ddileu cofnod.

O ganlyniad i Ddeddf 2022, mae'r Gorchymyn yn mewnosod cofnod newydd yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer "The Commission for Tertiary Education and Research or Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil" ac yn hepgor y cofnod presennol o ran "The Higher Education Funding Council for Wales or Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru".

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig. Ni chaniateir gwneud unrhyw argymhelliad i Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor wneud y Gorchymyn oni bai y caiff y drafft ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd a dau Dŷ Senedd y DU.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Mae'r Gorchymyn yn Saesneg yn unig. Yn ôl paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Mae'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU, ac felly mae'r Gorchymyn drafft yn cael ei osod yn Saesneg yn unig.*

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r prif nodyn mewn print italig ar frig y Gorchymyn yn darparu y caiff y drafft ei osod gerbron y Senedd o dan adran 157A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan ddau Dŷ'r Senedd.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam nad yw'r prif nodyn yn cyfeirio hefyd at osod y drafft gerbron y Senedd.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd y DU ar 21 Mai 2024.

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024, cafodd Senedd y DU ei addoedi ar 24 Mai 2024 cyn cael ei diddymu ar 30 Mai 2024. Nid oedd y naill Dŷ na'r llall wedi cymeradwyo'r Gorchymyn drafft cyn y diddymu.

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol y Gorchymyn drafft, ac arwydd o bryd y gall Senedd y DU ei ystyried yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod efallai na fydd diweddariad o'r fath yn bosibl tan ar ôl yr etholiad cyffredinol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail a'r trydydd pwynt adrodd yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Mehefin 2024**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DC/CG/05015/24

Mike Hedges AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

4 Mehefin 2024

Annwyl Mike,

Y dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Mai, ysgrifennaf i gadarnhau fod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru, a drefnwyd i gwrdd ar 23 Mai, wedi'i ohirio.

Byddaf yn diweddaru'r pwyllgor o ddyddiadau yn y dyfodol ar gyfer y Grŵp Rhyng-Weinidogol hwn.

Rwyf wedi copio'r llythyr yma i Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Department for Science, Innovation & Technology

Julia Lopez MP
Minister of State for Data and Digital Infrastructure
Department for Science, Innovation & Technology
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

www.gov.uk/dsit

**Delyth Jewell MS**
Committee Chair
Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

16 May 2024

Dear Delyth,

Thank you for your letter of 19 February 2024, my apologies for my delayed response. However, I am pleased to advise that during this time, my Department has been in close communication with Welsh Government Officials to reach an agreed position on the Data Protection and Digital Information ('DPDI') Bill. This dialogue remains on-going.

The Data Protection and Digital Information Bill is an essential piece of legislation that will make the UK's data laws among the most effective in the world, by maintaining high data protection standards and making common sense changes to put in place a pro-growth, innovation friendly data protection framework. Since the introduction of the DPDI Bill, we have added a number of amendments to the Bill. Whilst many of the Government's amendments are technical in nature, others are key to unlocking the immense possibilities of data use to improve the lives of everyone in the UK.

National Underground Asset Register

The National Underground Asset Register (NUAR), as you are aware, is a new digital map built in partnership with Welsh and NI government officials to improve the way we install, maintain, operate and repair the pipes and cables buried beneath our feet. Approximately 1 in every 65 holes dug results in an accidental asset strike (c. 60,000 a year), which is far too high, causing around £2.4 billion worth of economic cost, putting workers' lives at risk and disrupting our day-to-day lives. We estimate NUAR will generate in excess of £400m in total benefits per annum through increased efficiency, reduced accidental damage and reduced disruptions for citizens and businesses. Immediate access to data in a digital, standardized format will also help improve worker safety.

The Geospatial Commission, part of the Department for Science, Innovation & Technology, has been working closely with Welsh Government officials to develop the NUAR platform from the onset in 2021, which is why Wales was one of the first areas to benefit from the new services in 2022. Officials have and continue to actively contribute to the platform's development, ensuring that it aligns with the specific needs and requirements of Welsh Government, asset owners and excavators. They have played a crucial role in getting asset owners across Wales involved with the NUAR, facilitating the inclusion of data related to underground pipes and cables in the register. Additionally, Welsh Government are actively sharing relevant data through the NUAR, ensuring that workers can access this through the new register. Most recently, officials participated in a discovery project to explore the technical feasibility of sharing data between NUAR and DataMapWales, a digital platform that provides access to public sector data in Wales, including through a map interface. Furthermore, officials have been informed about legislative reforms related to operationalizing the NUAR service, which will ensure the benefits are realized across all areas of operation. However, these benefits can only be achieved with the proposed legislative provisions.

The majority of respondents to a 2022 public consultation on the future of NUAR stated new legislative reforms would be required to ensure workers have access to all the data they need, when they need it, through the new service. The requirement for legislation has been further reinforced in the current development phase of NUAR, where it has become increasingly clear that whilst a number of asset owners will voluntarily share their asset data, a proportion of asset owners will not do so in a timely manner, or keep it up to date, without new legislation being in place.

New reforms are required to establish NUAR as a statutory register for the sharing of buried utility data, to allow government to specify the data that is to be shared, who can access the data and the terms under which access may be granted, and to grant powers to charge fees to ensure the service is operationally viable and financially self-sustaining in future years without requiring use of public funds, as well as criminal offences for non-compliance.

Careful consideration was given as to the most appropriate legislative approach for bringing forward the necessary reforms to fully operationalise the digital service and realise the estimated benefits. It is our view that the best approach for introducing these new reforms is by updating existing data sharing obligations, rather than creating them afresh. Individual apparatus owners in England and Wales are already required to record information, maintain their own records and share information from those records with others as per the New Roads and Street Works Act 1991. With NUAR now live across England and Wales, it is appropriate to update these obligations to require the sharing of data through NUAR among other things.

We have adopted this approach after careful consideration and for important practical reasons; for NUAR to operate efficiently it is crucial that the legislative framework underpinning it is consistent in its approach across England and Wales. For example, for NUAR to be as effective and useful as possible, the information entered into it and then shared with others, must be consistent in content and format in respect of all apparatus. This also supports asset owners who operate across both nations, such as Virgin Media O2, Welsh and West Utilities and Openreach. Of course, we recognise the very keen interest that Welsh Ministers and the people of Wales will have in the content of any regulations made by the Secretary of State in relation to the devolved matter of street works, hence the inclusion of a clear requirement, prior to making such regulations, for the Secretary of State to have to consult Welsh Ministers.

Lastly, we have also taken care to ensure the provisions that are being taken forward do not prevent the Senedd from taking forward similar legislation in the future; for example, should Welsh Government wish to create their own version of NUAR, these provisions do not restrict the competency of the Senedd to do so.

We look forward to continuing our engagement with Welsh Ministers as we work to fully operationalise this high value service to improve worker safety and the resiliency of our critical services.

With best wishes,



Julia Lopez MP
**Minister for Data and Digital Infrastructure**

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Rt Hon Michelle Donelan MP
Secretary of State for Science, Innovation and Technology
HM Government

19 February 2024

## National Underground Asset Register

Dear Michelle,

I am writing to you following the Committee's consideration of a Supplementary Legislative Consent Memorandum related to the Data Protection and Digital Information (No.2) Bill ("the Bill"). During the reporting stage of legislative proceedings in the House of Commons, you introduced amendments to the Bill relating to establishing a National Underground Asset Register.

As you will be aware, there are hundreds of owners of underground assets across the country, ranging from local government to utility companies. All these owners will have their processes for holding such data. Whilst we do not have a specific position on the establishment of such a register, we do have concerns that the amended Bill transfers powers to the Secretary of State, through regulation-making powers, to make decisions on a National Underground Asset Register as it relates to Wales.

The Welsh Government has expressed "constitutional policy concerns" around regulation-making powers under the New Roads and Street Works Act 1991 being transferred from Welsh Ministers back to the Secretary of State (as set out in paragraph 22 of the Supplementary Legislative Consent Memorandum No.3). We are not sure, however, about its view or involvement on this policy matter more generally.

We would like to know what discussions you, or your officials, have had with the Welsh Government regarding the establishment of a National Underground Asset Register. We would like particularly to know what considerations are being given to devolved competencies and how they will be managed.

We would also welcome an outline from you about the Welsh Government's involvement in developing the policy for such a register.

As it stands, the lack of detail and transparency in the Welsh Government's Supplementary Legislative Consent Memorandum about the amendments to the Bill (identified as requiring the legislative consent of the Senedd) has hindered our ability to assess the policy implications of these changes. We would therefore welcome clarity about your discussions with the Welsh Government to assist our considerations.

As the Bill is proceeding through the House of Lords, we would be grateful to receive an urgent response to this matter. I am copying this letter to the Chairs of the Senedd's Climate Change and Environment Committee and Legislative, Justice and Constitution Committee for their information.

Yours sincerely,

**Delyth Jewell MS**
**Committee Chair**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **3 Mehefin 2024** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet** |

Ddydd Mercher 22 Mai 2024, cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig y byddai etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf. Cynhaliwyd 'cyfnod cau pen y mwdwl' am ddeuddydd wedi hyn cyn addoedi Senedd y DU ddydd Gwener 24 Mai. Yna, diddymwyd Senedd y DU ddydd Iau 30 Mai.

Roedd y Biliau canlynol gan Senedd y DU yn destun y broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru cyn diddymu Senedd y DU—

- Y Bil Cyfiawnder Troseddol
- Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol
- Y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)
- Y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)
- Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad
- Y Bil Rhentwyr (Diwygio)
- Y Bil Tybaco a Fêps
- Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Cafodd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Methodd yr holl Filiau eraill a restrir uchod yn dilyn diddymu Senedd y DU.

Maes o law, bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu rhagor o wybodaeth â Senedd Cymru ynglŷn â'r goblygiadau i Gymru yn sgil y Biliau hynny a gafodd y Cydsyniad Brenhinol yn ystod y cyfnod cau pen y mwdwl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad a'r Bil Rhentwyr (Diwygio)** |
| **DYDDIAD** | **06 Mehefin 2024** |
| **GAN** | **Julie James, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio** |

Bydd yr Aelodau'n dymuno gwybod, fel rhan o waith ystyried deddfwriaeth gan Senedd y DU a gafodd ei gyflymu yn sgil galw'r Etholiad Cyffredinol, a elwir hefyd yn 'gau pen y mwdwl', rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad ar 24 Mai.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno gwelliannau sylweddol i'r gyfraith a hawliau newydd pwysig i berchnogion tai yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Estyn cyfnod lesoedd safonol tai a fflatiau i 990 o flynyddoedd (i fyny o 90 o flynyddoedd ar gyfer fflatiau a 50 o flynyddoedd ar gyfer tai), a gostwng rhent tir i rent hedyn pupur (gwerth ariannol o sero) ar ôl talu premiwm.
- Cyflwyno hawl newydd i ddileu rhent tir o les bresennol heb estyn ei chyfnod, ar ôl talu premiwm.
- Dileu'r hyn a elwir yn 'werth cyfunol' a ddefnyddir wrth gyfrifo'r premiwm sy'n daladwy i estyn neu brynu les.
- Dileu'r gofyniad y dylai lesddeiliad fod wedi bod yn berchen ar ei dŷ neu ei fflat am ddwy flynedd cyn y caiff estyn neu brynu les.
- Cynyddu'r terfyn 'amhreswyl' o 25% sy'n gymwys i eiddo defnydd cymysg, ac a all atal lesddeiliaid mewn adeiladau lle ceir cymysgedd o gartrefi a defnyddiau eraill fel siopau a swyddfeydd, rhag prynu eu rhydd-ddaliad neu gymryd rheolaeth dros eu hadeiladau.
- Gwahardd defnyddio lesddaliad ar gyfer y rhan fwyaf o dai newydd.
- Gofyn am dryloywder ynglŷn â thaliadau gwasanaeth lesddeiliaid.
- Cyflwyno ffioedd gweinyddu tryloyw yn lle comisiynau yswiriant adeiladau i asiantiaid rheoli a landlordiaid.
- Dileu'r rhagdybiaeth bod rhaid i lesddeiliaid dalu costau cyfreithiol eu landlordiaid wrth herio arferion gwael.

- Pennu uchafswm o ran ffi ac amser ar gyfer darparu gwybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi gwerthu eiddo lesddaliadol neu eiddo rhydd-ddaliadol sy'n ddarostyngedig i gostau rheoli ystad, er mwyn gwerthu eiddo o'r fath yn gyflymach.
- Rhoi'r un hawliau estynedig ynghylch gwneud iawn i berchnogion rhydd-ddaliadol ar ystadau preifat a deiliadaeth gymysg ag i lesddeiliaid, gan gynnwys yr hawl i wneud cais i'r tribiwnlys i benodi rheolwr yn lle rheolwr taliadau ystad.

Mae'n destun gofid bod cyflymu hynt y Bil yn golygu ei fod wedi cael ei basio heb y cyfle i'r Senedd ystyried cydsyniad deddfwriaethol; heb ragor o welliannau i wella'r gyfraith mewn perthynas â fforffedu lesddaliad a rhent tir; a heb y gwelliannau roeddwn yn ceisio amdanynt i ddirprwyo rhagor o bwerau i Weinidogion Cymru. Caiff y mân welliannau a wnaed i'r Bil yn ystod ei gamau olaf eu hesbonio yn yr atodiad isod.

Er gwaethaf y pryderon hyn, mae pasio'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i'r buddion a restrir uchod gael eu cyflawni, yn ogystal â chyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio cyfraith lesddaliad. Mae hefyd yn gynnydd sylweddol tuag at ail ymrwymiad i sicrhau bod taliadau ystadau ar gyfer cyfleusterau a mannau agored cyhoeddus yn cael eu talu mewn ffordd sy'n deg.

Byddaf yn awr yn troi fy sylw at weithredu'r Ddeddf a gwneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i Gymru ynghylch gwella tryloywder taliadau gwasanaeth lesddaliad, disodli comisiynau annheg wrth drefnu yswiriant adeiladau lesddaliadol gyda ffioedd tecach a mwy tryloyw, a gosod yr uchafswm o ran ffi ac amser y mae'n rhaid rhoi ymatebion i geisiadau am wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi gwerthiant. Bydd arfer y pwerau hyn yn amodol ar waith ymgysylltu priodol, ymgynghori a phrosesau'r Senedd, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd maes o law.

*Y Bil Rhentwyr (Diwygio)*

Bydd yr Aelodau hefyd yn dymuno gwybod nad oedd y Bil Rhentwyr (Diwygio) wedi'i gynnwys yn y cyfnod cau pen y mwdwl, ac felly mae wedi methu. Roedd y Bil yn cynnwys darpariaethau a oedd yn atal landlordiaid rhag gweithredu ‘gwaharddiadau diwahân ar rentu i aelwydydd â phlant neu bobl sy'n derbyn budd-daliadau. Byddai'r gwaharddiad ar yr arferion gwahaniaethol hyn wedi bod yn gymwys i Gymru, ac rwy'n ystyried opsiynau ar sut y gallwn gyflawni'r nod polisi hwn. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am hyn maes o law.

*Atodiad: esboniad o'r gwelliannau terfynol a wnaed i'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad cyn y Cydsyniad Brenhinol*

Cyflwynodd Llywodraeth y DU 30 o fân welliannau a gwelliannau technegol i'r Bil yn ystod ei gamau olaf a ddigwyddodd ar 24 Mai. Cyfeirir at welliannau yn ôl y cyfeirnod ar y rhestr wedi'i gosod mewn trefn, sydd ar gael yn y ddolen hon: HL Bill 76—I (parliament.uk). Mae effaith y gwelliannau a wnaed wedi'u nodi isod. Mae rhifau cymalau yn cyfeirio at y Bil fel y'i

diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, sydd ar gael yn y ddolen hon: Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad (parliament.uk).

*Gwaharddiad ar dai*
Mae gwelliannau 1, 2 a 3 i Atodlen 1 (‘Categorïau lesoedd a ganiateir’) yn egluro'r diffiniadau o dai ymddeol ac eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi'u hesemptio rhag y gwaharddiad ar dai lesddaliadol newydd ac yn ychwanegu esemptiad newydd ar gyfer eiddo penodol y Goron. Mae gwelliannau 4, 5 a 6 i gymal 12 (‘Cyfyngu ar deitl’) yn cywiro terminoleg a ddefnyddir i sicrhau bod cyfyngu ar deitl i orfodi'r gwaharddiad ar dai yn gymwys o dan yr amgylchiadau a fwriadwyd. Mae gwelliant 7 yn ychwanegu cymal newydd cyn cymal 24 sy'n cymhwyso'r gwaharddiad ar dai i'r Goron (heblaw ar gyfer eithriadau a nodir gan welliant 3).

*Rhyddfreinio*
Mae gwelliannau 12, 14 a 27 i Atodlen 4 (‘Pennu a rhannu gwerth y farchnad’) yn egluro cymhwyso'r gyfundrefn newydd i denantiaid sydd â'r hawl i ddal drosodd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae gwelliant 10 yn ganlyniadol ar y gwelliannau hyn.

Mae gwelliannau 11, 18, 26 a 28, a hefyd i Atodlen 4, a gwelliannau 42 a 43 i Atodlen 8 (‘Rhyddfreinio ac estyn lesddaliadau: diwygiadau amrywiol’) yn dechnegol ac yn sicrhau bod y lesoedd cywir yn cael eu hystyried yn ystod rhyddfreinio.

Mae gwelliant 39 i Atodlen 6 (‘Atodlen 4 a 5: dehongli’), yn gwneud mân welliant i brisio mewn amgylchiadau pan fo un les tybiedig (fel y'i diffinnir yn Atodlen 6 paragraff 2). Mae gwelliannau 38 a 41 yn ganlyniadol ar welliant 39.

*Costau ymgyfreitha*
Mae gwelliannau 55 a 58 i gymal 61 (‘Cyfyngiadau ar hawliau landlordiaid i hawlio costau ymgyfreitha oddi wrth denantiaid’) yn ychwanegu pŵer newydd at Ddeddf Landlord a Thenant 1985 a Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 yn y drefn honno i'r awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru ar gyfer Cymru) i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer esemptiadau i'r cyfyngiad newydd yn y cymal hwn ar landlordiaid yn adhawlio costau ymgyfreitha. Mae gwelliannau 54, 56 a 57 yn ganlyniadol ar 55 a 58.

*Taliadau ystadau*
Mae gwelliannau 60 a 61 yn diweddaru cymalau 88 (‘Hysbysiadau am gŵyn’) a 91 (‘Meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn penodi’) i gywiro gwall wrth ddrafftio i adlewyrchu bod gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau i gymeradwyo cod ymarfer o dan adran 87 bresennol o LRHUDA 1993. Mae'r pŵer hwn yn cael ei estyn gan y gwelliant a wnaed gan gymal 87 (‘Codau ymarfer rheoli: eu hestyn i reolwyr ystadau’).

Mae gwelliant 59 i gymal 84 (‘Gorfodi adran 83’) yn cadarnhau y dylid defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer arfer pwerau presennol yn y cymal hwnnw i amrywio'r terfyn ar gyfer iawndal y caiff y tribiwnlys sy'n gorfodi'r ddyletswydd newydd i gyhoeddi taliadau gweinyddu tai ei orchymyn.

*Gwelliannau nad ydynt yn gwneud darpariaeth i Gymru*

Mae gwelliannau 64 a 65 yn ymwneud â darpariaethau'r cynllun gwneud iawn yng nghymal 110 (‘Dehongli Rhan 6’), sydd ond yn gymwys yn Lloegr.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Adam Price AS/MS**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr
**37 Wind Street**
**Ammanford**
**SA18 3DN**

05.06.2024

Annwyl Mike

Firstly, may I congratulate you on your appointment as chair of the Legislation, Justice and Constitutional Committee.

I wrote to your predecessor regarding my concerns about HM Prison Parc – concerns which I am sure you share. I have attached a copy of the original letter which I sent to Sarah Murphy MS in her capacity as chair.

In light of recent and ongoing events, I would like to re-emphasise the urgency of G4S' appearing to face the scrutiny of and answer questions from the Committee. I hope you can consider this possibility at the earliest juncture.

Diolch

Adam Price AS / MS,
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr



Senedd Cymru
Welsh Parliament
adam.price@senedd.cymru / adam.price@senedd.wales
01269 597 677
@Adamprice
/AdamPricePlaid

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Stephen Crabb AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig

14 Mai 2024

Annwyl Stephen,

Carchar y Parc

Fel y dywedsoch yn eich cwestiwn atodol i'r cwestiwn brys a ofynnwyd gan Chris Elmore AS yn Siambr Tŷ'r Cyffredin ddoe, mae'r sefyllfa bresennol yng Ngharchar EF Y Parc yn peri pryder mawr.

Gwnaethom fynegi ein pryderon ynghylch y sefyllfa sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ein Pwyllgor ddoe yn sgil gohebiaeth oddi wrth Adam Price, sy'n aelod o'n Pwyllgor.

Rydym yn ymwybodol bod carchardai a rheoli troseddwyr yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Fodd bynnag, mae eithriad i'r mater a gedwir yn ôl yn golygu bod darparu gofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, hyfforddiant a gwasanaethau llyfrgell mewn carchardai yn faterion datganoledig. Felly, rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer unrhyw waith y gallem ei wneud, gan gynnwys gwaith gyda Phwyllgorau eraill y Senedd, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa yn y carchar.

Rydym yn ymwybodol bod eich Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i garchardai yng Nghymru, a byddwch yn cymryd tystiolaeth gan y Gweinidog Carchardai, Parôl a Phrawf yfory. Felly, byddwn yn dilyn gwaith eich Pwyllgor ar y mater hwn ac yn edrych ymlaen at weld eich adroddiad terfynol a'ch argymhellion.

Fel y pwyllgorau sy'n gyfrifol am gynnal gwaith craffu priodol ar y ddarpariaeth o ofal iechyd ac addysg i garcharorion yng Nghymru, ac am ystyried materion o ran cydraddoldeb a hawliau dynol, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

S. Murphy

Sarah Murphy
Cadeirydd

**Adam Price AS/MS**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr

**37 Wind Street
Ammanford
SA18 3DN**

08.05.2024

Annwyl Cadeirydd,

I know that you share my concern about recent events at HM Prison Parc. Indeed, I am sure that these concerns are shared by all members of the Legislation, Justice and Constitution Committee.

Two deaths within hours of each other at the prison on Tuesday are the latest in what has become a profoundly worrying trend. Nine inmates have died at the prison in just over two months, and the Prisons and Probation Ombudsman has confirmed that he is investigating a total of 13 deaths.

Parc Prison is the only private prison in Wales, and it is operated by G4S, whose delivery of publicly-funded services has long been marked by controversy. In 2018, G4S' contract to run Birmingham Prison – awarded in 2011 – was revoked after the Chief Inspector of Prisons reported that the prison had fallen into a state of crisis under the company's management.

It is clear to me that G4S now has questions to answer over recent events at Parc Prison, and as such, I am writing to request that representatives of the company be asked to appear in front of the Committee as a matter of urgency, to face scrutiny and be held to account on their management of the prison.

Gyda diolch, a chofion cynnes,

Adam Price AS / MS,
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Carmarthen East and Dinefwr

Senedd Cymru
Welsh Parliament

adam.price@senedd.cymru / adam.price@senedd.wales
01269 597 677
@Adamprice
/AdamPricePlaid

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon